# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-14-09 Papur 1: 20 Hydref 2009

### Deisebau newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am y deisebau sydd i gael eu hystyried am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 20 Hydref 2009

### (i) P-03-252 Gwrthwynebu ffordd fynediad ogleddol canolfan y Llu Awyr Brenhinol Sain Tathan (trigolion Trebefered)

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i newid ei chynlluniau ar gyfer Academi Dechnegol Amddiffyn yn Sain Tathan fel nad oes ffordd fynediad ogleddol yn cael ei hadeiladu a bod y safleoedd maes glas yn Fferm Tremain, Picketston ac Eglwys Brewis yn cael eu cadw.

Byddai hyn yn cymryd i ystyriaeth safbwyntiau 95% o'r 395 unigolyn yr ymgynghorwyd â hwy yn Nhrebefered.

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan drigolion Trebefered, a chasglodd 1 llofnod. Yn ychwanegol, casglodd y deisebydd 377 llofnod ar gyfer deiseb gysylltiedig. Mae'r deisebydd wedi darparu datganiad i gefnogi'r ddeiseb, ac mae hwn i'w weld fel atodiad i'r papur hwn yn PET (3)-14-09 Papur 1A.

### (ii) P-03-253 Mabwysiadu carthffosydd preifat (trigolion Sir Gaerfyrddin)

**Geiriad y ddeiseb**

Mae deiseb trigolion Sir Gaerfyrddin yn gofyn i Gynulliad Cymru sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyflymu ei thrafodaethau â Dŵr Cymru ac yn cytuno ar y dyddiad cynharaf posibl i garthffosydd preifat ar ystadau tai presennol gael eu mabwysiadu gan Ddŵr Cymru a bod carthffosydd ar ddatblygiadau yn y dyfodol yn cael eu mabwysiadu yn yr un modd.

**Cefndir**

Cynigiwyd gan Tracy Thomas, a chasglodd 260 o lofnodion.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Hydref 2009**